

SL(6)510 – Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("y Rheoliadau") yn diwygio amryw reoliadau sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gofynion cymhwystra ar gyfer cyllid myfyrwyr, ac mewn cysylltiad â'r gofynion cymhwystra hynny.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig neu drais domestig, a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth, yn parhau i fod yn gymwys ar ôl i'r Swyddfa Gartref newid amryw ddarpariaethau o fewn y Rheolau Mewnfudo.

Mae'r Rheoliadau'n diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

Materion technegol: craffu

Nodwyd y pedwar pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

Yn rheoliad 6(b), yn y testun Cymraeg, nid yw'n ymddangos bod y disodliad yn cyflawni'r effaith a fwriedir o ddiwygio'r testun yn rheoliad 6(10D)(b) o Reoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014, i gynnwys y diffiniad diwygiedig "person y rhoddyd



caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir". Mae hyn yn rhannol oherwydd gwall hanesyddol yn nhestun Cymraeg presennol y rheoliad hwnnw yn Rheoliadau 2014 pan fo "person granted leave" wedi'i gyfieithu i olygu "person sydd â caniatâd", a hefyd arddodiad ychwanegol yn yr ymadrodd "neu i aros" yn y diwygiad newydd.

Mae testun Cymraeg y geiriau agoriadol yn rheoliad 6(10D)(b) o Reoliadau 2014 fel y'i diwygiwyd yn darllen fel a ganlyn: "(b) y cyfnod y caniateir i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir...".

Fodd bynnag, y diffiniad diwygiedig yn rheoliad 3(1) o Reoliadau 2014 yw "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir" a ddylai fod wedi cael ei ddefnyddio â threiglâd meddal yn nhestun Cymraeg geiriau agoriadol rheoliad 6(10D)(b) o'r Rheoliadau hynny.

Mae'r un broblem yn digwydd yn y diwygiadau a wnaed gan reoliad 12(b) i reoliad 4(10C)(b) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017, a chan reoliad 35(a) i reoliad 16(1)(b)(viii) o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

A allai Llywodraeth Cymru esbonio pam nad yw'r diffiniad diwygiedig o "person y rhoddwyd caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir" wedi cael ei ddefnyddio yn nhestun Cymraeg diwygiedig y darpariaethau hyn?

2. Rheol Sefydlog 21.2 (vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 9(a)(iii), disgrifir y lleoliad ar gyfer mewnosod y paragraff newydd (1) yn anghywir sef "o flaen **is-baragraff** (a)" yn y diffiniad presennol o "person y rhoddwyd caniatâd iddo aros fel partner a ddiogelir" ym mharagraff 1(1) o'r Atodlen i Reoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015. Fodd bynnag, dylid ei ddisgrifio'n gywir fel "o flaen **paragraff** (a)" o'r diffiniad hwnnw yn y paragraff hwnnw o'r Atodlen i Reoliadau 2015. At hynny, mae hefyd yn anghyson â'r disgrifiadau cywir a ddefnyddir mewn diwygiadau cyfatebol a wnaed i'r un diffiniad mewn Offerynnau Statudol eraill gan reoliadau 3(a)(iii), 5(c), 11(c) ac 31(c) o'r Rheoliadau hyn.

3. Rheol Sefydlog 21.2(vi) - ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Yn rheoliad 16(a) a (b), disgrifir lleoliad y testun i'w ddiwygio'n anghywir fel "ym **mharagraff** (a)" ac "ym **mharagraff** (b)" yn y drefn honno o reoliad 81(10C) yn Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2017. Fodd bynnag, dylid nodi'r ddwy ddarpariaeth yn gywir fel "yn **is-baragraff** (a)" ac "yn **is-baragraff** (b)" o reoliad 81(10C) yn Rheoliadau 2017. Mae'r un gwall yn digwydd yn rheoliad 18(a) a (b) mewn perthynas â'r diwygiadau a wnaed i reoliad 110(12C) o Reoliadau 2017.

4. Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol



Mae'n ymddangos bod gwall hanesyddol presennol yn y mynegai o ddiffiniadau a geir yn Nhabl 16 o baragraff 1 yn Atodlen 7 i Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrrwyr) (Cymru) 2018 nad yw'n cael ei gywiro gan y diwygiad a wnaed gan reoliad 29 o'r Rheoliadau hyn. Yn Nhabl 16, y diffiniad newydd o ganlyniad i'r diwygiad a wnaed gan reoliad 29 yw "caniatâd i ddod i mewn neu i aros fel partner a ddiogelir" ac yn y cofnod cysylltiedig yn ail golofn y Tabl hwnnw nodir ei fod i'w weld yn Atodlen 2, paragraff 2ZB. Fodd bynnag, y diffiniad diwygiedig a geir yn is-baragraff (3)(b) o baragraff 2ZB o Atodlen 2 i Reoliadau 2018 yw "**person y rhoddwyd** caniatâd iddo ddod i mewn neu aros fel partner a ddiogelir". Nodir y term diwygiedig hwn hefyd yn rheoliad 80(3) o Reoliadau 2018, a pharagraff 14(4) o Atodlen 14(4) a pharagraff 4(3) o Atodlen 5 iddynt. Mae'r diffiniadau eraill ar gyfer categorïau o bersonau a restrir yn y mynegai o ddiffiniadau yn Nhabl 16 o Atodlen 7 wedi'u nodi'n llawn.

Rhinweddau: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt Craffu Technegol 1: Rydym yn cytuno bod gwall hanesyddol a gwall a wnaed gan y Rheoliadau hyn y mae gofyn eu cywiro a byddwn yn ceisio gwneud y diwygiadau angenrheidiol yn yr offeryn priodol nesaf. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ar ddechrau 2025.

Pwyntiau Craffu Technegol 2 a 3: Rydym yn nodi'r mân wallau teipograffyddol y tynnwyd sylw atynt ac rydym mewn cysylltiad â Chofrestrydd yr Offerynnau Statudol ar hyn o bryd ynghylch y posibilrwydd o gywiro'r gwallau hyn drwy gyfrwng slip cywiro.

Pwynt Craffu Technegol 4: Rydym yn cytuno bod gwall hanesyddol y mae gofyn ei gywiro a byddwn yn ceisio gwneud y diwygiad angenrheidiol yn yr offeryn priodol nesaf. Rydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd ar ddechrau 2025.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 16 Medi 2024 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.

